

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref Porthmadog a gynhaliwyd ar nos Fawrth, 15fed o Fedi 2020 am 7.00yh yn Neuadd y Ganolfan, Porthmadog.

Presennol : Cynghorwyr: Gwilym Jones(Cadeirydd), Selwyn Griffiths, Richard Williams, Jason Humphreys, Alwyn Gruffydd, Nia Jeffreys, Ian Jones, Seimon Brooks, Bethan Rees Jones, Llywelyn Rhys, Aled Griffiths, Marian Roberts (Clerc dros dro)

Ymddiheuriadau : Cyng. Dafydd Lake, Cyng. Garol Hayes

9. Adroddiad y Cadeirydd

Mynegodd y Cadeirydd ei fod yn falch o weld pethau cadarnhaol yn digwydd ym Morthmadog, er enghraifft, adeiladu'r gwesty newydd ar fin dechrau, Gorsaf Bwer nwy newydd am gael ei lleoli ar Stad Ddiwydiannol Penamser.. Dywedodd ei bod wedi bod yn aruthrol o brysur yn y dref dros wyliau'r haf a bod busnesau lleol wedi manteisio ar y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr a'r prysurdeb.

10. Cadarnhau cywirdeb cofnodion cyfarfod rheolaidd diwethaf (Mawrth 10fed 2020)

Penderfynwyd : derbyn y cofnodion fel rhai cywir a llofnodwyd hwy gan y Cadeirydd yn ôl gofynion y gyfraith.

Cynnig : Cyng. Selwyn Griffiths. **Eilio** : Cyng. Richard Williams

11. Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb ar y cyfarfod rheolaidd

Dim sylwadau.

Materion i'w dwyn gerbron

12. Cyfethol cyngorydd i lenwi sedd wag ar ward Ddwyreiniol

Derbyniodd y Clerc gais drwy e-bost oddiwrth Stuart Nashir-Hallard i lenwi sedd wag Dwyrain Porthmadog ar y Cyngor. Yn dilyn pleidlais, derbyniwyd y cais.

13. Cyng. Jason Humphreys - cynnig ynglŷn â goleuo Bryn Coffa.

Trafodwyd y posibilrwydd o gael goleuadau llif cynnaliadwy /solar i oleuo Bryn Coffa. Soniwyd bod cyflenwad trydan wedi bod yno yn y gorffennol

ond iddo gael ei ddatgysylltu oherwydd fandaleiddio a phryderon ynglyn â iechyd a diogelwch.

Y Cyng. Jason Humphreys : cynnig fod y Cyngor yn ysgrifennu i wneud cais i'r Dref Werdd am nawdd. Eilio : y Cyng. Richard Williams.

Penderfynwyd : ysgrifennu yn ôl y cynnig.

14. Cyng. Richard Williams - cynnig ysgrifennu at swyddogion perthnasol am y prinder dybryd yn ardal Porthmadog o dai fforddiadwy a modern.

Nododd y Cyng. Richard Williams :-

- nad oedd yr un tŷ fforddiadwy wedi ei adeiladu ym Mhorthmadog ers 2009
- fod angen 120 o dai o'r math yn y dref
- fod y cynllun adeiladu tai wedi ei drosglwyddo i Benrhyndeudraeth a Cricieth
- fod hyn yn adlewyrchu'n wael ar drigolion lleol
- fod pobl o'r tu allan yn prynu tai hyd yn oed ar Stryd Fawr Porthmadog
- fod tai yn cael eu gwerthu o fewn dyddiau gydag arian parod.
- ei fod wedi paratoi pecyn o ddogfennau perthnasol i gefnogi'r llythyr.

Roedd y Cyng. Llywelyn Rhys yn eilio'r cynnig ac yn nodi :-

- nad oedd Porthmadog yn cael chwarae teg gan gwmnïau adeiladu oherwydd ein bod ar orlifdir
- nad oedd Cyngor Gwynedd am edrych i mewn i'r mater onibai bod Cyngor Tref Porthmadog yn ceisio gweithredu
- fod y cyfnod Covid diweddar wedi codi'r nifer o bobl o'r tu allan oedd yn prynu tai lleol fel tai haf.

Nododd y Cyng. Nia Jeffreys iddi dderbyn cwynion yn aml iawn am broblemau gorlenwi mewn tai lleol gyda sawl cenhedlaeth yn rhannu'r un tŷ.

Nododd y Cyng. Alwyn Gruffydd :-

- fod problem tai fforddiadwy wedi cael ei drafod ers 50 mlynedd a dim byd wedi ei wneud i ddatrys y broblem
- y gallai'r sector gyhoeddus brynu tai y sector breifat er mwyn eu gosod i bobl leol
- y byddai defnyddio'r tai sy'n bodoli eisoes i'w gosod yn diddymu'r broblem o geisio adeiladu tai newydd.

Nododd y Cadeirydd nad oedd swyddi lleol yn talu cyflogau digon uchel i bobl fforddio prynu cartrefi lleol ac awgrymodd fod problem gyflogaeth a diffyg swyddi yn llesteirio'r broblem tai.

Penderfynwyd ysgrifennu at y canlynol :-

Craig ap Iago

Liz Saville Roberts

Delyth Jewell

Julie James

Dafydd Elis Thomas

15. Cyng. Carol Hayes - Gan nad oes unrhyw sicrwydd o bryd fydd y gwaith adnewyddu a gwella gan Gyngor Gwynedd na'r Cynulliad yn cychwyn oherwydd covid -19, cynigir ein bod yn trefnu i atgyweirio'r difrod gan fandaliaeth i safle bus ger y rheilffordd fel mater brys.

CYNGOR TREF PORTHMADOG

Penderfynwyd peidio trafod y mater yn absenoldeb Cyng. Carol Hayes.

Caiff y mater ei gario ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

16. Cyng. Carol Hayes - cynnig trafod canfod lleoliad gwell ar gyfer y potiau blodau ger Thedford House yn dilyn y fandaliaeth ddiweddar.

Penderfynwyd peidio trafod y mater yn absenoldeb Cyng. Carol Hayes.

Caiff y mater ei gario ymlaen i'r cyfarfod nesaf.

17. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi yn y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Ofnir y bydd y rheolau cyfyngu cymdeithasol yn tynhau yn y dyfodol agos felly bydd rhaid cynnal y cyfarfod nesaf ar Hydref 13eg ar Zoom. Bydd angen cymorth i gysylltu â rhai aelodau o'r Cyngor sydd ddim ar y Wê.

Nodwyd nad oedd gan y Cyngor glerc gan nad yw'r dyddiad cau am y swydd tan Hydref 2il 2020.

Cyng. Selwyn Griffiths - codi 10% ar bris parcio ar draeth Morfa Bychan.

18. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb

Derbyniwyd y wybodaeth a pharhau i bwysu am ateb lle me angen.

Gohebiaeth

19. Y Ganolfan - cais i apelio am gyfraniad 2020

Mynegodd y Cyng. Jason Humphreys nad oedd y Ganolfan wedi dilyn protocol y Cyngor ac roedd am i Bwyllgor y Ganolfan gael cyngor cyfreithiol (gweler mater 246 Cofnodion 10.3.20). Dywedodd y Cyng. Seimon Brooks fod angen cefnogi cymdeithasau lleol i'r uchafswm ac na ellir caniatáu i gymdeithasau lleol fynd i'r wal oherwydd cyfyngiadau Covid. Dywedodd y Cyng. Richard Williams fod angen cefnogi'r Ganolfan a bod y Cyngor wedi rhoi cefnogaeth ariannol hael iddi erioed. Pam na wnaiff y Ganolfan wneud cais am nawdd gan y Coastal Grant neu'r Loteri? Roedd y Cyng. Selwyn Griffiths yn hapus i symud un cyfraniad o Chwefror i fis Rhagfyr a nododd bod y Ganolfan wedi cael grantiau Covid i wella'r adeilad yn ddiweddar.

Mynegodd y Cyng. Alwyn Gruffydd fod cymdeithasau lleol wedi arfer gwneud cais am nawdd gan y Cyngor ar ddiwedd mis Ionawr ac y dylid parhau efo'r un drefn.

Roedd y Cyng. Nia Jeffreys yn cytuno ac yn diolch i Bwyllgor y Ganolfan am eu gwaith gwirfoddol clodwiw yn cynnal yr adeilad. Roeddynt yn haeddu cael eu gwerthfawrogi.

Dywedodd y Cyng. Bethan Rees Jones nad oedd hyn wedi bod yn broblem o'r blaen a bod gan y Cyngor gyfrifoldeb i gefnogi bodolaeth a llwyddiant adnodd mor bwysig a'r Ganolfan.

Nid oedd y Cyng. Llywelyn Rhys yn credu fod y Ganolfan wedi gweithredu'n anghyfreithlon ac roedd yn anghytuno gyda'r Cyng. Jason Humphreys. Awgrymodd fod angen cyngor cyfreithiol i ddatrys y broblem ond pwy fyddai'n talu am hyn?

Awgrymodd y Cyng. Jason Humphreys y gellid gofyn am gyngor cyfreithiol gan Unllais a gan archwilwyr mewnol ac allanol y Cyngor. Awgrymodd y Cyng. Selwyn Griffiths y gellid rhoi hanner y cyfraniad i'r Ganolfan a'r ail hanner yn dilyn ymchwiliad cyfreithiol. Roedd y Cyng. Jason Humphreys yn fodlon iddynt gael y cyfraniad yn llawn ond bod angen barn gyfreithiol. Roed y Cyng. Richard Williams yn cynnig pontio drwy gynnig hanner y swm gwreiddiol a datrys y mater cyfreithiol.

Cynigiodd y Cyng. Jason Humphreys bod y Cyngor yn rhoi'r swm gwreiddiol o £15,000 yn amodol ar gyngor cyfreithiol. Eilwyd gan y Cyng. Seimon Brooks.

Cynigiodd y Cyng. Llywelyn Rhys welliant ar y cynnig, sef, cael cyngor cyfreithiol gan Unllais a rhoi arion pontio o £7,500 i'r Ganolfan. Pleidleisiodd 7 o blaid y gwelliant.

Roedd y Cyng. Jason Humphreys a'r Cyng. Seimon Brooks yn dymuno cofnodi eu pleidlais yn erbyn y gwelliant.

20. Amgueddfa'r Môr Porthmadog - ymddiriedolwyr cynrychioladol

Roedd y Cyng. Selwyn Griffiths yn awyddus i wybod os oes y Cyng. Bethan Rees Jones wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd pwyllgor Elusen yr Amgueddfa Fôr. Ydi swyddogion y Cyngor wedi cael eu gwahodd?

Roedd y Cyng. Richard Williams am i'r Cyngor ysgrifennu at yr elusen i wahodd aelodau i'w cyfarfodydd. Roedd y Cyng. Alwyn Gruffydd yn synnu at dôn geiriad paragraff olaf y llythyr. Cynigiodd y Cyng. Selwyn Griffiths na ddylai'r Cyngor ildio ei hawliau i yrru ei aelodau i fynychu cyfarfodydd yr Elusen . Y Cyng. Richard Williams yn eilio.

21. G.L.Jones Ltd - adroddiad blynyddol Cae Chwarae Bodawen.

Clywyd fod y stormydd diweddar wedi achosi difrod i giatiau'r cae chwarae. Roedd Alan G Jones wedi trwsio'r giât dros dro (am ddim) ond roedd angen gofyn iddo ail edrych arni a chynnig tâl iddo am wneud hynny. Gofynnodd y Cyng. Aled Griffith pam nad oes clo ar y giât. Dywedodd y Cyng. Nia Jeffreys y dylid cyfeirio'r mater at y Pwyllgor Eiddo. Penderfynwyd : gofyn i Alan G Jones i drwsio'r giât.

21. Cyngor Cymuned Llanllyfni - cais i gefnogi codi tâl am fynediad i'r Wyddfa.

Cynnig y Cyng. Selwyn Griffiths : fod y cyngor yn cefnogi'r cyfarfod. Eilio : y Cyng. Llywelyn Rhys.

Doedd y Cyng. Richard Williams ddim yn fodlon codi tâl ar neb i ddringo / cerdded unrhyw fynydd - gwell fyddai sicrhau fod gan bob dringwr / cerddwr yswiriant priodol i fedru talu am unrhyw wasanaeth achub / diogelwch. Teimlai y Cyng. Llywelyn Rhys y dylid ysgrifennu at arweinydd Cyngor Gwynedd i drafod y mater yn ogystal â'r Parc Cenedlaethol.

Awgrymodd y Cyng. Nia Jeffreys y byddai codi tâl parcio yn ardaloedd gwyliau yn hwb i goffrau'r Sir.

Penderfynwyd : cefnogi'r cyfarfod.

22. Materion Ariannol

Archwiliad Blynyddol:

Ffurflen flynyddol - wedi ei chymeradwyo.

Mantolen 2019/2020

Adroddiad yr Archwilydd Mewnol - Cymeradwywyd. Yr unig beth oedd angen sylw oedd gwahaniaethu cyfraniadau dan Adran 137 gyda chyfraniadau eraill sef Eisteddfod Boduan a'r Cylch 2021.

Biliau i'w talu :

ICO - GDPR , Deddf Rheoli Data 2018 - ffi flynyddol	=
£40.00	
B2 Business systems - costau llungopio 1.8.20- 31.10.20	=
£29.16	
Glenda Burke - hanner lwfansau 2020-2021 (Ebrill - Medi)	=
£300.00	
Glenda Burke - cyflog mis Awst 2020	=
£603.20	
Cyllid a Thollau EM - treth incwm/ YG cyflog clercc Awst 2020	=
£150.80	
Glenda Burke - inc 1.8- 31.8.20,hanner rent ffón/we 26.8.20 - 25.9.20 =	
£41.10 Derbyniadau:	
Llog Banc - Mawrth 2020	=
£5.39	
Llog Banc - Ebrill 2020	=
£5.76	
Llog Banc - Mai 2020	=
£5.58	
Llog Banc- Mehefin 2020	=
£2.05	
Llog Banc - Gorffennaf 2020	=
£0.	
Llog Banc - Awst 2020-08-03	=
£0.29	
Hanner cyntaf Praesept 2020/2021	=
£31,290.72	
HMRC - Ad-daliad Treth ar Werth 2019/2020	=
£5,151.23	
Ail hanner Preasept 2020/2021	=
£31,290.71	

Biliau wedi eu talu - Covid 19

Cyngor Gwynedd- gosod,tynnu coed Nadolig 2019	=
£2,439.60	
SLCC- aelodaeth 2020/2021	=
£140.00	

Glenda Burke - cyflog Clerc Mawrth 2020	=
£603.20	
Cyllid a Thollau EM treth incwm/YG cyflog Mawrth	=
£150.80	
Xerox Finance llogi llungopiwr 1.5.20-31.7.20	=
£126.00	
Glenda Burke - clo/ties Bodawen £9.65, inc 1.3.20-31.3.20 (£13.49)	
hanner rent llinell ffón a we 26.3.20-25.4.20 (£32.25)	=
£55.39	
Scottish Power - trydan Nadolig 26.12.19-25.3.20	=
£26.95	
Glenda Burke -cyflog Clerc Ebrill 2020	=
£603.20	
Cyllid a Thollau EM treth incwm/ YG cyflog Ebrill 2020	=
£150.80	
Glenda Burke - stampiau (£32.52), inc 1.4.20-30.4.20 (£17.49)	
Hanner rent llinell ffón/we 6.4.20 - 25.5.20 (£32.92)	=
£82.93	
BHIP - yswiriant blynyddol y Cyngor Tref	=
£1,593.40	
Cyng. Richard Williams - lwfans cynghorydd 2019/2020	=
£120.00	
Cyng. Jason Humphreys - lwfans cynghorydd 2019/2020	=
£120.00	
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - treth lwfansau cynghorwyr	=
£60.00	
Glenda Burke - cyflog Clerc Mai 2020	=
£603.20	
Cyllid Thollau Ei Mawrhydi- treth cyflog Clerc Mai 2020	=
£150.80	
Cyfoeth Naturiol Cymru - andrethi draenio Cae Pawb	=
£5.54	
Glenda Burke - inc 1.5.20-31.5.20 (£3.49),	
hanner rent ffón/ we 26.5.20 - 25.6.20 (£32.62)	=
£36.11	
Gardencraft Tremadog - blodau stryd fawr	=
£120.00	
Xerox Finance - llogi llungopiwr 1.8.20 - 30.10.20	=
£126.00	
Cyng. Bethan O Rees Jones - lwfans cynghorydd 2019/2020	=
£120.00	

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - treth o lwfans cynghorydd	=
£30.00	
Glenda Burke cyflog Clerc Mehefin 2020	=
£603.20	
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi - treth cyflog Mehefin 2020	=
£150.80	
Glenda Burke - inc Mehefin (£4.49) , hanner rent ffon a we 26.6.20 - 25.7.20 (£32.62)	
= £37.11	
Scottish Power - trydan Nadolig 26.3.20-24.6.20	=
£26.49	
Glenda Burke - ad daliad i brynu shredder	=
£37.15	
Glenda Burke -ad daliad am 12 mis anti feirws AVG	=
£49.99	
G L Jones Ltd - archwiliad blynyddol Cae Bodawen	=
£259.20	
Glenda Burke cyflog Clerc Gorffennaf 2020	=
£603.20	
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi treth incwm cyflog clerc Gorffennaf	=
£150.80 Glenda Burke inc Gorffennaf (£7.49) hanner rent ffôn/ we	
25.7.20-	
26.8.20 (£32.62)	=
£40.11	
(Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/ rheolau ariannol)	

Penderfynwyd : talu'r biliau a nodi'r derbyniadau yn ôl cynnig y Cyngh. Selwyn Griffiths, eilwyd gan y Cyngh. Jason Humphreys.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30yh.

Cyfarfod nesaf : ar Zoom am 7yh ar 13/10/2020.

Marian Roberts 17/9/2020